**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **26 CHWEFROR 2009** |
| **TEITL** | **PROSIECT AMGYLCHEDD O ANSAWDD** |
| **PWRPAS** | **Ceisio hawl i ddirprwyo cyfrifoldebau am wasanaethau penodol i Ghynghorau Cymdeithas a Thref ardal Penllyn, Bala** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr argymhellion** |
| **AWDUR** | **Dewi V Rowlands**<br>**Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Gareth Roberts** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Nôd y Prosiect Amgylchedd o Ansawdd yw hwyluso gwelliannau ffisegol yn yr amgylchedd adeiledig yng Ngwynedd gan ganolbwyntio ar y mannau agored cyhoeddus oddi fewn ac o amgylch trefi a phentrefi'r Sir. Y nôd yw creu amgylchedd iach, diogel, glân a deniadol.

1.2 Mae meysydd gwaith y Prosiect Amgylchedd o Ansawdd yn ymddangos o dan 3 phennawd sef:-

- Gangiau cymunedol
- Gorfodaeth/codi ymwybyddiaeth
- Gwella cydweithio

1.3 Mae awdurdod wedi ei roddi gan Fwrdd y Cyngor i wneud y trefniant gangiau cymunedol yn un parhaol ac i sefydlu uned gorfodaeth i ymdrin â throseddau amgylcheddol ac i godi ymwybyddiaeth ac addysgu mewn perthynas â materion amgylcheddol.

1.4 Trydedd rhan y Prosiect yw gwella cydweithio gydag asiantaethau eraill a chynghorau cymdeithas a thref ac mae nifer o gamau wedi eu cymryd i gyflawni hyn. Mae trefniadau wedi eu cyflwyno i weithio ar y cyd gydag eraill i wneud gwaith "blitz" yn nhrefi a phentrefi'r Sir. Yn ogystal, sefydlwyd Menter Trefi Taclus ynghyd â Menter Balchder ym Mangor gyda mewnbwn gan wahanol fudiadau i geisio gwella'r amgylchedd. Datblygiad cyffrous pellach i wella cydweithio yw'r Cynllun Peilot Penllyn, Bala.

1.5 Mae'r adroddiad hon yn egluro rhagor am y Cynllun Peilot ac yn ceisio hawl y Cyngor i ddirprwyo cyfrifoldebau am wasanaethau penodol sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan yr Awdurdod hwn. Mae'r penderfyniad i ddirprwyo cyfrifoldebau i gyngor arall yn unol â chymal 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn fater y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei gymeryd.

## 2.0 CYNLLUN PEILOT PENLLYN BALA

2.1 Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd yn 2007, cychwynwyd ar y Cynllun Peilot yn ardal Penllyn, Bala. Amcanion y cynllun yw:

i. Penderfynu a yw'n ymarferol i ddatganoli rhai gwasanaethau i Gynghorau Cymdeithas/Tref.
ii. Ystyried pa opsiynau o gydweithio fydd mwyaf effeithiol o feithrin perchnogaeth ac atebolrwydd lleol.
iii. Ystyried a fydd ansawdd y gwasanaethau yn debygol o wella'n lleol.
iv. Ystyried sut mae dylanwadu ar bolisïau a rhaglenni asiantaethau er budd y boblogaeth leol.
v. Ystyried sefydlu canolfan amlbwrpas sy'n hwyluso'r uchod.
vi. Gweithredu'r newidiadau ar gyfer cydweithio a dylanwadu'n lleol.

2.2 Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda chynrychiolaeth o'r pum Cyngor yn nalgylch Penllyn sef Cynghorau Cymdeithas Llanuwchllyn, Llanycil, Llandderfel a Llangywer a Chyngor Tref Bala. Bellach, mae'r pum Cyngor wedi cytuno i sefydlu Partneriaeth a'r cam nesaf yw darparu Cytundeb Partneriaeth fydd yn creu cyfansoddiad i'w arwyddo gan y Cynghorau. Yn y Cytundeb, bydd cyfeiriad at faterion fel aelodaeth ar y Bartneriaeth, swyddogaethau'r Bartneriaeth a threfniadau gweinyddiaeth a chyllidol.

2.3 Cam nesaf i'r Cyngor fydd darparu Cytundeb Dirprwyo gyda'r pum Cyngor. Bydd y Cytundeb yn amlygu cyfrifoldebau bob parti gan gynnwys:

- rhestru gweithgareddau i'w trosglwyddo
- gosod safon gwasanaeth
- adnabod trefniadau trosglwyddo arian
- adnabod trefniadau yswirio
- sefydlu lefel cymorth a phwyntiau cyswllt
- cyfeirio at drefniadau adolygu
- nodi trefniadau datrys problemau/anghydfod

2.4 Cerrig milltir pwysig eraill i'w cyflawni yw sicrhau bod y trefniadau gweinyddol yn eu lle ynghyd â threfniadau goruchwylio gwaith y Bartneriaeth.

2.5 Gobeithir cyflawni'r uchod erbyn y 1af o Ebrill 2009 fel bod y Bartneriaeth yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau y maent eisoes wedi eu cytuno arnynt gyda'r Cyngor Sir sef:

- meysydd chwarae
- toiledau cyhoeddus
- dodrefn stryd
- llwybrau cyhoeddus
- parciau a thiroedd agored (Tomen y Bala)

2.6 Hyd yma, mae ein trafodaethau gyda'r Bartneriaeth wedi canolbwyntio ar ddirprwyo cyfrifoldebau. Bydd datblygiadau mewn perthynas â gwella trefniadau

ymgynghori a sefydlu canolfan gyswllt aml bwrpas yn cael sylw fel rhan nesaf o'r Cynllun Peilot.

## 3.0 MODEL Y CYNLLUN PEILOT

3.1 Nid yw'r Bartneriaeth yn cael ei ystyried yn endyd cyfreithiol felly mae'n rhaid iddi ddewis un Cyngor i arwain ar faterion fel rheoli cyllid a chyflogi gweithiwyr. Mae'r pum Cyngor ym Mhenllyn yn trafod ar hyn o bryd pwy fydd yn cymryd y rôl arweiniol.

3.2 'Rydym wedi pwysleisio fel Cyngor ein bod yn dymuno cael un pwynt cyswllt o fewn y Bartneriaeth. Byddai'n amhosibl i'r Awdurdod drafod gyda phob Cyngor yn unigol felly mae clystyru yn rhan allweddol o'r Cynllun. Yn yr achos yma mae'r clwstwr yn cyd-fynd a'r dalgylch sydd wedi ei adnabod yn y Cynllun Datblygu Unedol. Mater i'r Bartneriaeth fydd nawr adnabod pa drefniant fydd ei angen i sicrhau un pwynt cyswllt. Daw yma gyfle i'r pum Cyngor adolygu eu trefniadau clercio ac efallai rhesymoli'r drefn bresennol. O safbwynt y Cyngor, y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol fydd y pwynt cyswllt ar faterion gweithredol.

3.3 Mae'r Cytundeb Dirprwyo yn gosod cyfnod o dair blynedd i drosglwyddo cyfrifoldebau a chyllid, hynny yw, bydd y trosglwyddiad yn un graddol. Ym mlwyddyn pedwar bydd y Bartneriaeth yn cymryd trosodd yr holl awenau. Cynhelir adolygiadau blynyddol o'r Cytundeb ac os bydd y Bartneriaeth yn credu eu bod yn aeddfed i symud i sefyllfa Blwyddyn 4 ynghynt, yna bydd modd iddynt wneud hynny.

3.4 Fel mae dyletswyddau yn cael eu datganoli, bydd cyllid yn cael ei drosglwyddo sy'n cyfateb i'r gwariant a wneir gan y Cyngor ar y rhan hynny o'r gwasanaeth. Bwriedir trosglwyddo'r arian hwn mewn dau swm, ar gychwyn y flwyddyn ariannol ac yna 6 mis i mewn i'r flwyddyn. Bydd chwyddiant yn cael ei ychwanegu i'r gyllideb sylfaenol yn flynyddol. Yn yr achos ble bydd y Bartneriaeth yn gorwario, disgwylir i'r gwariant ychwanegol ddod allan o praesept y Cynghorau sy'n rhan o'r Bartneriaeth. Os gall y Bartneriaeth wneud arbedion yna bydd yr hawl ganddynt i gadw'r arian hynny a'i wario ar wasanaethau sydd wedi eu datganoli ac wedi eu hadnabod yn y Cytundeb Dirprwyo.

3.5 Disgwylir i'r Bartneriaeth fod yn gyfrifol am ei gostau gweinyddol a hefyd unrhyw gostau am ddarparu lefel gwasanaeth sy'n uwch na'r hyn a nodir yn y Cytundeb Dirprwyo. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyfrannu swm unwaith ac am byth i roddi cyfle i'r Cynghorau godi eu praesept ar gyfer yr elfen weinyddol.

3.6 Mae trefniant parthed asedau'r Cyngor i'w drafod eto gyda'r Bartneriaeth. Os bydd y Cyngor yn bwriadu gwaredu ased e.e., toiledau cyhoeddus sydd i'w cau, yna rhoddir cynnig i'r Bartneriaeth i gymryd trosodd yr ased hynny os mai eu dymuniad yw eu cadw ar agor. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi derbyn y bydd y trosglwyddiad am swm "nominal" o £1. Bwriedir hefyd cefnogi'r Bartneriaeth i wella cyflwr yr asedau yma drwy gynnig grant unwaith ac am byth. Yn achos asedau sydd o bwys strategol i'r Cyngor, gall y Bartneriaeth ddewis eu cymryd trosodd neu eu lesu neu gael hawl i'w defnyddio drwy gytundeb. Byddwn yn gadael y dewis gyda'r Bartneriaeth ond mewn unrhyw drefniant o drosglwyddo,

bydd amodau yn gwarchod buddiannau'r Cyngor ac yn sicrhau dyfodol y gwasanaeth.

## 4.0 CEFNOGAETH I'R CYNLLUN

4.1 Mae Pwyllgor yr Amgylchedd yn ei gyfarfod o'r 4ydd o Ragfyr 2008, wedi derbyn cyflwyniad ar y cynllun peilot ac fe ddatganwyd cefnogaeth i'r camau sy'n cael eu cymeryd.

4.2 Yn ei gyfarfod o'r 27ain Ionawr 2009 bu i Fwrdd y Cyngor dderbyn y model a ddisgrifir yng nghymal 3 o'r adroddiad yma a chymeradwyo'r gwasanaethau sydd wedi eu cytuno gyda'r Bartneriaeth i'w dirprwyo. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn derbyn dirprwyo'r gwasanaethau hyn fel rhai cychwynol ac wedi awdurdodi ymestyn y cynllun cydweithio i rannau eraill o'r Sir pan fydd adnoddau yn caniatau.

## 5.0 CASGLIADAU

5.1 Er bod trefniadau o gydweithio rhwng y Cyngor a Chynghorau Cymdeithas a Thref eisoes yn bodoli mae'r cynllun hwn yn llawer ehangach ac yn arloesol ar lefel Cymru a Lloegr.

5.2 Mae'r ffaith bod pum Cyngor wedi cytuno i ffurfio Partneriaeth yn cadarnhau eu dymuniad i gydweithio. Mae yn gyfle i wella perthynas gyda'r Cyngor Sir ac yn creu perchnogaeth ar lefel lleol o'r gwasanaeth a ddarperir. Trwy hyn gobeithir y bydd gan y Bartneriaeth well dealltwriaeth o'r cymhlethdodau ynghlwm a chyflwyno gwasanaeth. Bydd yma gyfle hefyd iddynt ddylanwadu ar safon y gwasanaeth ac mae'n bosibl y gwelir gwasanaeth sydd yn fwy effeithiol ac effeithlon.

5.3 Bydd angen cyflwyno trefniadau rheoli a monitro cadarn. Trwy'r holl broses o drafod gyda'r Cynghorau ym Mhenllyn Bala, mae pwyslais wedi ei roddi ar sicrhau cadw safon gwasanaethau neu os yn bosibl, eu gwella. Nid oes pwrpas sefydlu Partneriaeth os gwelir dirywiad yn y gwasanaeth.

5.4 Mae'r model sydd wedi ei gytuno gyda'r Bartneriaeth yn trosglwyddo cyfrifoldeb yn raddol a bydd cefnogaeth arbenigol ar gael bob amser o gyfeiriad y Cyngor Sir.

5.5 Yn ddiweddar, cyhoeddwyd dogfen gan Lywodraeth y Cynulliad sef "Cymuned ar y Cyd". Mae yn argymell y dylid creu perthynas ffurfiol rhwng y Cyngor Sir a Chynghorau Cymdeithas a Thref a hynny drwy Siarter. Gwelir y Cynllun Peilot fel cam pwysig i'r cyfeiriad yma ac mae'n debyg bod y model sydd wedi ei ddatblygu drwy'r Cynllun Peilot yn sefydlu perthynas llawer mwy cadarn na'r hyn a ddisgwylir drwy'r Siarter.

## 6.0 ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Cyngor yn unol ac Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, awdurdodi sefydlu Cytundeb gyda'r pum Cyngor yn ardal Penllyn, Bala i ddirprwyo cyfrifoldebau am ddarparu'r gwasanaethau canlynol:

- meysydd chwarae
- toiledau cyhoeddus
- dodrefn stryd
- llwybrau cyhoeddus
- parciau a thiroedd agored (Tomen y Bala)

**Dewi V. Rowlands**
**Cyfarwyddwr Strategol**
**DVR/cw**